Rhif: **WG19401**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Canllaw diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg

Dyddiad cyhoeddi: **27 Awst 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **25 Hydref 2013**

# Canllaw diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am y canllawiau drafft diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach ar y trefniadau i ddiogelu plant o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r canllaw hefyd ar gyfer perchenogion ysgolion annibynnol er mwyn iddynt allu cydymffurfio â'r safonau lles, iechyd a diogelwch a nodir mewn rheoliadau o dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r canllaw yn disodli Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 05/2008 *Diogelu Plant Mewn Addysg; Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu a dan Deddf Addysg 2002*.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **25 Hydref 2013** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Dysgwyr Amrywiol a Diogelu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SafeguardingChildreninEducation@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2013
WG19401

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **1**

**Pam rydym yn diwygio’r canllawiau?** **2**

**Beth sydd wedi newid yn y canllawiau diwygiedig?** **4**

Y rhagair 4

Pennod 1: Y fframwaith ar gyfer diogelu yng Nghymru 4

Pennod 2: Swyddogaethau a chyfrifoldebau diogelu yn y gwasanaeth addysg 5

Pennod 3: Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol 6

Pennod 4: Arferion recriwtio mwy diogel 7

Pennod 5: Fetio staff a gwirfoddolwyr o dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd 7

Pennod 6: Ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff arall 7

Pennod 7: Cyfeiriadau at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 8

Atodiadau 8

# Cyflwyniad

1. Daeth adran 175 Deddf Addysg 2002 i rym yng Nghymru ar 1 Medi 2006, gan greu dyletswydd gyfreithiol i bob awdurdod lleol, ysgol a gynhelir a sefydliad addysg bellach yng Nghymru ddefnyddio eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

2. Cyhoeddodd Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 005/2008 *Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002* ("canllawiau 2008") i roi arweiniad ynghylch sut i roi'r ddyletswydd statudol hon ar waith. Rhaid i'r ddarparwyr addysg ystyried y canllawiau hyn.

3. Rhaid i perchenogion ysgolion annibynnol gydymffurfio gyda'r canllaw hyn er mwyn cyfarfod â safonau lles, iechyd a diogelwch disgyblion yn yr ysgol a bennwyd mewn rheoliadau o dan adran 157 o'r Deddf Addysg 2002.

4. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bob un o'r canlynol:

- awdurdodau lleol;
- cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig);
- perchenogion ysgolion annibynnol;
- penaethiaid sefydliadau addysg bellach.

5. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu pob darparwr addysg i wneud yn siŵr bod ganddo systemau effeithiol ar waith i helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, drwy wneud y canlynol:

- cyfrannu at weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â phawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc;
- creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;
- gweld lle mae pryderon ynghylch lles plant a chychwyn y broses neu gymryd camau i'w cadw'n ddiogel;
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch plant drwy'r cwricwlwm;
- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- hyrwyddo arferion diogel a herio arferion gwael ac anniogel.

## Pam rydym yn diwygio'r canllawiau?

6. Mae diwygio'r canllawiau hyn yn ymrwymiad Gweinidogol ac yn flaenoriaeth yng Nghynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac arferion gorau. Yn benodol, mae angen diwygio'r canllawiau i roi gwybodaeth am newidiadau allweddol i archwiliadau fetio a gwahardd cyn cyflogi, a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

7. Mae'r canllawiau diwygiedig yn disodli cylchlythyrau canlynol Llywodraeth Cymru:

- Cylchlythyr Rhif: 005/2008*Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002* (Ebrill 2008)
- Cylchlythyr Rhif: 018/2009 *Adrodd am Gamymddwyn ac Anghymhwystra yn y Gwasanaeth Addysg: Adrodd am Achosion o Gamymddwyn ac Anghymhwystra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg – Trefniadau Adrodd Diwygiedig o 12 Hydref 2009 ymlaen* (Medi 2009)
- Cylchlythyr Rhif: 02/2003 *Y Swyddfa Cofnodion Troseddol: Ffeithiau Sylfaenol i Wirfoddolwyr mewn Ysgolion* (Chwefror 2003)
- Cylchlythyr Rhif: 34/2002 Amddiffyn Plant: *Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg* (Hydref 2002).

8. Mae'r ddogfen wedi cael ei diwygio i gynnwys newidiadau deddfwriaethol ers i'r canllawiau blaenorol gael eu cyhoeddi yn 2008, ac i gyfeirio at y canllawiau statudol diweddaraf ynghylch materion cysylltiedig.

9. Ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi yn 2008, mae ymarferwyr addysg yng Nghymru wedi dweud wrthym yn gyson y byddent yn croesawu canllawiau mwy cynhwysfawr, yn unol â'r ddogfen a gyhoeddwyd yn Lloegr gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn 2006, *Safeguarding Children and Safer Recruitment in Education.* Rydym felly wedi ymhelaethu ar rywfaint o'r wybodaeth er mwyn rhoi canllawiau mwy cynhwysfawr i'r amrywiaeth lawn o faterion diogelu y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg fod yn ymwybodol ohonynt.

10. Yn Lloegr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fersiwn ddiwygiedig o'i chanllawiau yn ddiweddar i ymgynghori arnynt. Enw'r ddogfen yn awr yw *Keeping Children Safe in Education: Statutory Guidance for Schools and Further Education (FE) Colleges*. Mae hyn yn lleihau maint y canllawiau yn Lloegr o 122 tudalen i 18 tudalen. Yng Nghymru, rydym wedi penderfynu mynd o'i chwmpas hi mewn ffordd wahanol, yn unol â barn ymarferwyr.

11. Rydym hefyd wedi newid strwythur y canllawiau gan ein bod am iddynt fod mor ddefnyddiol a hawdd eu defnyddio â phosibl. Mae'r ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys hyperddolenni at ganllawiau, adroddiadau defnyddiol, rheoliadau a deddfwriaethau, er mwyn helpu'r darllenwyr i gael gafael ar wybodaeth fanylach yn gyflym ac yn ôl yr angen.

12. Mae’r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gael gwybod gennych chi a yw’r diwygiadau i’r canllawiau yn ddefnyddiol, a yw'r strwythur a’r fformat newydd yn hwylus, ac a hoffech chi weld unrhyw beth arall yn cael ei gynnwys. Pan fyddwn wedi derbyn yr ymatebion i’r ymgynghoriad, byddwn yn mynd ati’n ofalus i ystyried eich holl safbwyntiau ac i wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol cyn cyhoeddi’r fersiwn derfynol.

## Beth sydd wedi newid yn y canllawiau diwygiedig?

13. Mae'r canllawiau diwygiedig wedi cael eu hailstrwythuro. Roedd canllawiau 2008 wedi'u rhannu'n grynodeb a phedair adran. Mae'r canllawiau diwygiedig nawr yn cynnwys rhagair a saith phennod. Rydym wedi lleihau nifer yr atodiadau, gan symud gwybodaeth bwysig i brif gorff y ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gweld, ac wedi defnyddio crynodebau a hyperddolenni drwy'r testun i gyd yn hytrach na dyfyniadau hir o ddeddfwriaethau a chanllawiau eraill. Mae'r newidiadau ym mhob pennod wedi'u hamlinellu isod, ac eglurir ffynhonnell yr wybodaeth o ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi'n barod neu ganllawiau cyfredol eraill gan y llywodraeth.

### Y rhagair

14. Mae'r rhagair yn dechrau drwy nodi'r amcanion diogelu a rennir gan bawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth addysg, a oedd i'w gweld yn 'Adran 2: Amcan Cyffredin' yng nghanllawiau 2008.

15. Mae'r rhagair yn cynnwys gwybodaeth am statws y canllawiau, a nodwyd yn flaenorol yn y 'Crynodeb' yng nghanllawiau 2008. Mae'n crynhoi cynnwys pob pennod.

16. Yna mae'r rhagair yn cynnwys geirfa, a oedd wedi'i chynnwys yn 'Adran 1: Rhagarweiniad a Fframwaith Deddfwriaethol' yng nghanllawiau 2008. Daw'r diffiniadau o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 12/2007 *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* (2007).

### Pennod 1: Y fframwaith ar gyfer diogelu yng Nghymru

17. Mae Pennod 1 yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith llywodraethu ar gyfer diogelu yng Nghymru. Mae'r bennod hon yn ymhelaethu ar yr wybodaeth yn 'Adran 1: Rhagarweiniad a Fframwaith Deddfwriaethol' ac yn 'Atodiad G' yng nghanllawiau 2008.

18. Er mwyn bod yn eglur, mae is-benawdau yn nodi pob un o'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth, ac o dan y rhain amlinellir dyletswyddau a gofynion awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu. Er mwyn hwyluso pethau, ceir hyperddolenni er mwyn i'r darllenwyr allu cael mynediad cyflym at yr adrannau perthnasol o'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati, yn hytrach na darparu dyfyniadau llawn fel yn 'Atodiad G' yng nghanllawiau 2008.

19. Yn hytrach na darparu rhestr o ganllawiau perthnasol fel yn 'Atodiad G' yng nghanllawiau 2008, mae Pennod 1 yn rhoi crynodeb o bob un o'r prif ddarnau o ganllawiau statudol, er mwyn gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a llywodraethwyr yn gallu gweld yn gyflym pam mae canllawiau o'r fath yn berthnasol iddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau, a'u bod yn gallu cael gafael arnynt yn gyflym drwy hyperddolen.

20. Mae adran newydd o'r enw 'Strwythurau diogelu amlasiantaethol' yn cynnwys gwybodaeth newydd am ddarpariaethau yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i

galluogi newidiadau strwythurol i Fyrddau Diogelu Plant ac i sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion a Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am newidiadau mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant a fforymau proffesiynol amlasiantaethol, yn dilyn diwygiadau i Reoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006.

21. Mae Pennod 1 hefyd yn cynnwys adran newydd am 'Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd', gan ddiweddaru'r wybodaeth ym Mhennod 13 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 12/2007 *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* yng ngoleuni *MAPPA Guidance 2012* a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

## Pennod 2: Swyddogaethau a chyfrifoldebau diogelu yn y gwasanaeth addysg

22. Mae Pennod 2 yn dwyn ynghyd wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn flaenorol mewn sawl rhan o ganllawiau 2008, er mwyn nodi mewn ffordd gynhwysfawr y dyletswyddau statudol a'r cyfrifoldebau hanfodol sy'n berthnasol i bawb sy'n rhan o'r gwasanaeth addysg. Mae'n dechrau drwy nodi prif egwyddorion, a oedd wedi'u cynnwys yn 'Atodiad D' yng nghanllawiau 2008 (tudalennau 65–69).

23. Mae Pennod 2 yn mynd ymlaen i nodi cyfrifoldebau a swyddogaethau diogelu awdurdodau lleol, ysgolion o bob math a cholegau addysg bellach, a oedd yn ymddangos yn 'Adran 3: Y Fframwaith ar gyfer Amddiffyn Plant rhag Esgeulustod a chael eu Cam-drin' yng nghanllawiau 2008.

24. Roedd canllawiau 2008 yn ailadrodd nifer o'r cyfrifoldebau a oedd yn cael eu rhannu gan gyrff llywodraethu neu benaethiaid/perchenogion gwahanol fathau o leoliadau addysg mewn gwahanol adrannau, ond mae'r canllawiau newydd yn cyfuno'r cyfrifoldebau cyffredin hyn o dan bennawd newydd, sef 'Pob ysgol a sefydliad addysg bellach'. Yna rhestrir dim ond y gwahaniaethau penodol ar gyfer y gwahanol swyddogaethau neu'r math o sefydliad o dan benawdau ar wahân.

25. Mae Pennod 2 yn cynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau Swyddogion Dynodedig Awdurdodau Lleol ar gyfer Amddiffyn Plant, a'r uwch berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, a oedd wedi'i chynnwys yn 'Atodiad A' ac 'Atodiad B' yng nghanllawiau 2008.

26. Roedd yr adran 'Goruchwyliaeth a chymorth' wedi'i chynnwys yn flaenorol yn 'Atodiad F' (tudalennau 92–94) yng nghanllawiau 2008.

27. Mae'r adran newydd o'r enw 'Cyfrifoldebau pawb' yn defnyddio'r hyn a welir yn *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* (tudalennau 39–41). Mae'r adran wedi cael ei chynnwys er mwyn pwysleisio'r dyletswyddau statudol sydd ar bob unigolyn sy'n gweithio mewn lleoliad addysg i leisio pryderon am amddiffyn plant.

28. Mae’r adran ‘Gwrando ar blant’ (paragraffau 2.94–2.98) a ‘Cyfrinachedd’ (paragraffau 2.106–2.108) yn disodli’r adrannau o’r un enw a oedd yn ‘Atodiad D’ yng nghanllawiau 2008 (tudalennau 63–65).

29. Mae’r adran ‘Rhan rhiant neu ofalwr’ yn disodli’r adran o’r un enw yn ‘Adran 2: Amcan Cyffredin’ yng nghanllawiau 2008 (tudalennau 19–20).

30. Mae’r adran ‘Rhannu gwybodaeth’ yn nodi’r prif egwyddorion a oedd i’w gweld yn flaenorol yn ‘Atodiad F’ yng nghanllawiau 2008; fodd bynnag, mae’n disodli’r manylion llawn o weddill yr adran honno (tudalennau 78–87) gydag adran newydd fyrrach sy’n cyfeirio'r darllenwyr at fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru i gael gwybodaeth am safonau a chanllawiau manylach.

## Pennod 3: Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol

31. Mae Pennod 3 yn rhoi crynodeb o’r prif faterion diogelu y mae’n rhaid i'r rheini yn y gwasanaeth addysg fod yn ymwybodol ohonynt, ac mae’n cynnwys manylion ynghylch lle i gael gafael ar ganllawiau a chyngor pellach am y materion hynny. Yn flaenorol, cyfeiriwyd at hyn fel rhestr o bwyntiau bwled yn ‘Atodiad D’ o dan y pennawd ‘Diogelu mewn Amgylchiadau Penodol’ (tudalennau 69–70). Ar gyfer y fersiwn hon o'r canllawiau, yn hytrach na chyfeirio at y mater yn gryno mewn atodiad, fe wnaethom benderfynu gwneud yr adran hon yn rhan ganolog o'r ddogfen. Bwriad hyn oedd dangos bod y materion hyn yr un mor bwysig â’r penodau eraill am recriwtio’n ddiogel, trefniadau fetio, a honiadau yn erbyn staff. Mae staff addysg yn aml mewn sefyllfa unigryw i adnabod pryderon yn ymwneud â lles neu gamdriniaeth bosibl yn fuan, a nod y bennod hon yw darparu pwynt cyfeirio canolog i ysgolion, athrawon ac eraill yn y gwasanaeth addysg.

32. Mae’r materion yn ymwneud â diogelu a oedd wedi’u rhestru fel pwyntiau bwled yn flaenorol wedi cael eu rhoi yn nhrefn yr wyddor er mwyn ei gwneud yn hawdd cyfeirio atynt, ac ar gyfer pob un o’r rhain mae’r canllawiau newydd yn awr yn darparu’r wybodaeth ganlynol:

- **diffiniadau a materion allweddol** – sy’n egluro terminoleg ac yn crynhoi'r materion ar gyfer darparwyr addysg
- **canllawiau a dyletswyddau statudol** – sy’n nodi’r dyletswyddau cyfreithiol sydd ar ddarparwyr addysg ac yn darparu hyperddolenni at ganllawiau statudol y mae’n rhaid eu dilyn
- **dangosyddion risg** – sy’n tynnu sylw at y ffactorau a allai ddangos bod plentyn mewn perygl y dylai athrawon gadw golwg amdanynt
- **ymateb i bryderon** – beth i’w wneud a ble i fynd os oes gan athro/athrawes neu ysgol bryderon
- **dulliau gweithredu rhagweithiol** – cyngor ynghylch sut gall ysgolion a lleoliadau addysg gymryd camau ataliol i ddiogelu plant, i bwysleisio pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar ac atal, yn ogystal â chamau gweithredu ymatebol i ymateb i bryderon.

## Pennod 4: Arferion recriwtio mwy diogel

33. Mae Pennod 4 yn rhoi arweiniad ar arferion gorau o ran recriwtio a dethol er mwyn helpu i atal, gwrthod neu adnabod pobl nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac i sicrhau bod diogelu yn rhan allweddol o brosesau adnoddau dynol. Mae'r bennod hon yn diweddaru'r canllawiau yn 'Rhan 4: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant' yng nghanllawiau 2008 o dan y pennawd 'Penodi Staff' (tudalennau 38–39). Mae'n disodli Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 34/2002 *Diogelu Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg*.

34. Mae Pennod 4 hefyd yn defnyddio cyngor ynghylch arferion gorau a gyhoeddwyd yn Lloegr gan yr Adran Addysg a Sgiliau, *Safeguarding Children and Safer Recruitment in Education*, yn unol â'r safbwyntiau a fynegwyd i ni gan ymarferwyr ynghylch pa mor ddefnyddiol yw'r ddogfen hon.

## Pennod 5: Fetio staff a gwirfoddolwyr o dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd

35. Mae Pennod 5 yn rhoi arweiniad manwl ynghylch yr archwiliadau recriwtio a fetio newydd y mae angen eu gwneud mewn lleoliadau addysg o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli, ac mae'n defnyddio gwybodaeth o amrywiol ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd. Rydym wedi ceisio gwneud yr adran hon yn un gynhwysfawr, gan roi gwybodaeth am gefndir y newidiadau yn 2012, i'w dilyn gan ganllawiau ynghylch pa archwiliadau y mae'n rhaid eu gwneud, neu y dylid eu gwneud, ac ar gyfer pa staff, ynghyd â phryd y dylid gwneud hynny, a pha mor aml. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ynghylch sut i benderfynu a yw cofnod troseddol unigolyn yn berthnasol a sut mae storio gwybodaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ymdrin â hi.

36. Mae'r bennod yn disodli Rhan 1 a Rhan 2 o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 34/2002 *Diogelu Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg*. Mae hefyd yn disodli Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 02/2003 *Y Swyddfa Cofnodion Troseddol: Ffeithiau Sylfaenol i Wirfoddolwyr mewn Ysgolion*.

## Pennod 6: Ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff arall

37. Mae Pennod 6 yn diweddaru ac yn disodli Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 018/2009 *Adrodd am Gamymddwyn ac Anghymhwystra yn y Gwasanaeth Addysg: Adrodd am Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwystra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg – Trefniadau Adrodd Diwygiedig o 12 Hydref 2009 ymlaen*. Mae'n diweddaru'r adrannau 'Delio â Honiadau o Gam-drin yn erbyn Athrawon a Staff nad ydynt yn Addysgu mewn Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru' (tudalennau 39–40) yn 'Adran 4' yng nghanllawiau 2008. Mae'n rhoi trosolwg o'r canllawiau statudol sydd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 002/2013 *Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol*.

38. Mae’r adran ar ‘Gam-drin ymddiriedaeth’ yn disodli’r canllaw o’r un enw yn ‘Atodiad D’ yng nghanllawiau 2008 (tudalen 59).

39. Mae’r adran ar ‘Cyfeiriadau at Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)’ yn disodli paragraffau 4.1–4.14 yn ‘Adran 4’ canllawiau 2008.

## Pennod 7: Cyfeiriadau at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

40. Mae Pennod 7 yn rhoi crynodeb o'r amrywiaeth o ganllawiau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ar gyfer materion nad ydynt wedi’u datganoli, ynghylch y broses cyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fydd unigolyn yn cael ei ddiswyddo neu ei atal o’r gwaith oherwydd y niwed neu’r risg o niwed y mae’n ei achosi, neu os yw wedi cael rhybudd, neu wedi ei gael yn euog, o drosedd perthnasol.

## Atodiadau

41. Mae’r lyfryddiaeth yn Atodiad 1 yn disodli adran ‘Canllawiau Perthnasol’ ‘Atodiad G’ yng nghanllawiau 2008. Mae’n rhestru’r canllawiau diweddaraf ac yn darparu hyperddolenni i alluogi'r darllenwyr i gael mynediad cyflym at gyfeiriadau yr hoffent gael rhagor o wybodaeth amdanynt.

42. Mae’r atodiadau eraill yn cynnwys y nodiadau enghreifftiol a geir yn ‘Atodiad C’ yng nghanllawiau 2008.